



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG

Dyddiad ac Amser

3.00 y.h., DYDD GWENER, 30AIN HYDREF, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD Dydd Iau, 22 Hydref 2026)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Gwilym Jones
June Jones
Nia Wyn Jeffreys

Aelod Lleol
Aelod Lleol
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Jeremy Morgan Davies
I'w gadarnhau
I'w gadarnhau
I'w gadarnhau
I'w gadarnhau
Robert Owen
Chris Fisher

Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog
Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir
Cynrychioli Buddiannau Harbwr
Cynrychioli Buddiannau Hamdden
Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol
Cynrychioli Buddiannau Masnachol
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth

Sylwedyddion:

David Williams

R Medwyn Hughes

John Brynmor Hughes
Ian Baylis

Deputy - Aberdyfi Harbour Consultative
Committee
Cabinet Member for Economy and
Community
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026-27.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026-27.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

6. COFNODION

4 - 9

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27/03/26 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

7. CHWISTRELLU SPARTINA ARDAL BORTH Y GEST

8. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

10 - 22

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 31/03/27.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 27/03/26

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli)
Y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

HEFYD YN BRESENNOL: Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel Arthur Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

YMDDIHEURIADAU: Chris Fisher (Bad Achub Cricieth) a Robert Owen (Cynrychioli Buddiannau Masnachol)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Chris Fisher (Bad Achub Cricieth) a Robert Owen (Cynrychioli Buddiannau Masnachol).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30/09/25 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

- (1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod 2025/26.

Data Perfformiad

Nodwyd bod cytundebau angori ym Mhorthmadog bellach wedi cynyddu i 109. Cadarnhawyd bod y ffigurau a ddarparwyd yn parhau i fod yn gyson â'r rhai a rannwyd yng nghyfarfod mis Hydref. Fodd bynnag, yn ystod y gaeaf, derbyniodd

Swyddfa'r Harbwr nifer o ymholiadau ynglŷn ag angorfeydd gan gwsmeriaid newydd yn Harbwr Porthmadog.

Atgoffwyd y byddai'r gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau angori, cofrestru cychod pŵer ac adnewyddu trwyddedau angori yn ailagor ar 1 Ebrill. Gofynnwyd i unrhyw gwsmeriaid newydd alw i mewn i'r swyddfa er mwyn darparu gwybodaeth am eu cwch i'r Harbwrfeistr cyn cwblhau'r ffurflen ar-lein.

Nodwyd bod arwyddion gyda chodau QR wedi eu lleoli o amgylch yr harbwr i dderbyn sylwadau gan ddefnyddwyr ynglŷn â'u profiad o'r harbwr. Nodwyd bod ffigurau boddhad wedi cynyddu'n sylweddol ers cyfnod 2023/24. Rhagwelwyd y byddai nifer yr ymatebion adborth a gyflwynir drwy'r holiadur cod QR yn gostwng dros gyfnod y gaeaf. Serch hynny dirywiad yn nifer yr ymatebion adborth a gyflwynwyd drwy'r holiadur cod QR dros gyfnod y gaeaf. Serch hynny, cadarnhawyd bod adborth a dderbyniwyd drwy ohebiaeth e-bost a thrafodaethau wyneb yn wyneb wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi ei groesawu.

Cyfeiriwyd at sylw penodol a dderbyniwyd yn canmol y gwasanaeth ardderchog a ddarparwyd gan y gwasanaeth dros gyfnod y gaeaf, gan nodi bod staff profiadol y gwasanaeth wedi defnyddio cerbydau morwrol yn ystod tywydd garw er mwyn cefnogi preswylwyr mwyaf agored i niwed yn ystod y cyfnod. Roedd hyn wedi galluogi gofalwyr o'r gwasanaethau oedolion i deithio i gartrefi preswylwyr ac i'w gweithleoedd. Diolchwyd yn ddiffuant i'r holl staff am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Cyfeiriwyd at sylw pellach yn ymwneud â'r cymorth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion yr harbwr i gynorthwyo gydag arolwg hydrograffeg o Harbwr Pwllheli.

Diogelwch yr Harbwr

Adroddwyd, yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, fod yr aelodau wedi eu hysbysu ynglŷn â phenodiad Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Cynhaliodd Mr Owen Morgan archwiliadau o'r harbyrau o dan awdurdod yr Adran Forwrol, sef harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Hafan Pwllheli, ym mis Chwefror. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gyflwyno ei 'Ddatganiad Cydymffurfio' cyn diwedd mis Mawrth, ac i gyhoeddi ei ddogfennaeth PMSC ar wefan Cyngor Gwynedd.

Nodwyd bod addasiadau wedi eu gwneud i'r PMSC yn ystod 2025, gyda'r newidiadau wedi'u cynllunio i sicrhau bod unrhyw gynlluniau a systemau rheoli diogelwch morol sy'n gorgyffwrdd yn cyd-fynd yn effeithiol â'i gilydd. O ganlyniad, cyhoeddwyd ymarfer cydymffurfio cenedlaethol i'r holl harbyrau er mwyn cadarnhau eu bod yn cadw at eu codau unigol, ac i sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

Stormydd y Gaeaf

Adroddwyd bod yr ardal, yn ystod gaeaf 2025/26, unwaith eto wedi profi cynnydd yn nifer y stormydd, yn bennaf o gyfeiriad y De-De-Ddwyrain. Nodwyd bod stormydd o'r

fath yn dod yn fwy cyffredin, gyda llai o fwlch rhyngddynt. Nodwyd mai un digwyddiad yn unig a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn, yn ymwneud â chwch a suddodd wrth ochr wal yr harbwr oherwydd glaw trwm a gwyntoedd cryfion. Ymhelaethwyd na nodwyd unrhyw bryderon amgylcheddol, ac y cafodd y cwch ei adfer a'i ddychwelyd i'w le ar y cyfle cyntaf posib.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr yr harbwr sicrhau eu bod yn cysylltu â'r Harbwrfeistr i gael gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'r sianel, gwirio statws y Cymhorthion Mordwyo, ac ymgyswddo ag unrhyw Rybuddion i Forwyr a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

Materion Ariannol

Cyflwynwyd crynodeb byr o ffioedd 2026/27 a chyllidebau'r Harbwr ar gyfer y cyfnod 01/4/25 i 31/03/26, a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yn benodol:

- Bod ffioedd wedi cynyddu yn unol â chwyddiant.
- Bod ffi cychod ymwelwyr wedi cynyddu i £16 y noson i gwsmeriaid Cyngor Gwynedd ac i £22 i bob cwch ymweladiol arall.
- Bod ffi cofrestru blynyddol wedi codi i £80.
- Bod ffi trwydded lansio flynyddol wedi codi i £196.50.
- Bod ffi lansio ddyddiol wedi codi i £24.
- Bod gorwariant bychan o dan y pennawd 'gweithwyr' o £3,834. Nodwyd bod y gorwariant hwn yn deillio o gostau goramser a salwch.
- Nad oedd y pennawd 'adeiladau' yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â'r gwaith ar swyddfeydd yr harbwr, ac felly bod tanwariant o £7,724 yn ymddangos.
- Bod tanwariant o dan y pennawd 'cludiant' o £468.
- Bod tanwariant sylweddol o dan y pennawd 'gwasanaethau a chyflenwadau' o £8,722.
- Bod £31,914 wedi ei wario o'r gronfa wrth gefn i uwchraddio swyddfeydd yr harbwr er mwyn sicrhau llesiant y staff ac i uwchraddio'r compownd.
- Ar y cyfan, bod y gwasanaeth cyfan yn gorwario £18,835 dros y targed a osodwyd ar gyfer y cyfnod. Serch hynny, roedd incwm yr harbwr yn sylweddol, ac felly roedd hynny wedi arwain at danwariant cyffredinol o £9,404 ar gyfer rhedeg yr Harbwr yn ei gyfanrwydd.

Pwysleisiwyd bod cryn arbenigedd ymhlith staff yr Harbwr, megis sgiliau weldio a defnyddio peiriannau arbenigol, ac felly nad oedd angen cyflogi contractwyr ym mhob achos. Nodwyd bod hyn wedi arwain at arbedion sylweddol.

Materion Allweddol Eraill

Yn ystod y cyflwyniad, rhannwyd fideo drôn o'r sianel, yn benodol ardal banc tywod 'Danger Rock'. Nodwyd bod cerrynt cryf yn dod o Afon Dwyrdd, sy'n creu 'eddies' ac yna drobll wrth y cerrig. Nodwyd bod hyn yn gallu achosi problemau mordwyo ar adegau. Gofynnwyd i gychod mwy fynd i mewn i'r harbwr dros y banc tywod yn ystod cyfnodau o ddŵr uchel er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Diolchwyd i'r staff am eu hymateb i ddigwyddiad amgylcheddol yn ardal Cricieth yn ystod y gaeaf. Ymhelaethwyd bod staff sydd wedi'u hyfforddi ar sut i ymateb i ollyngiadau olew wedi defnyddio bwmau, matiau amsugno a deunyddiau eraill i atal y gollyngiad a lleihau'r effaith amgylcheddol.

Cadarnhawyd bydd yr 'adweithydd shynt 'nesaf yn cael ei ddanfôn gan y 'Terra Marique' yn ystod 2026. Bwriedir gweithredu hyn ar draeth Morfa Bychan, lle bydd y cwch yn glanio ar y traeth cyn cludo'r adweithydd ar hyd y ffordd i Drawsfynydd. Nodwyd nad oes dyddiad pendant wedi ei gadarnhau hyd yma, ond y disgwyl yw y bydd yn digwydd yng nghanol y flwyddyn, pan fydd amodau'r môr yn fwy ffafriol.

Cadarnhawyd bod cytundeb ffurfiol rhwng y Clwb Rhwyfo a'r Gwasanaeth Morwrol bellach wedi ei gymeradwyo yn dilyn cais i ddefnyddio'r tir yn ardal y lloc. Nodwyd bod y Clwb Rhwyfo wedi defnyddio'r ardal ar gyfer storio cychod ers nifer o flynyddoedd, ac roedd y gwasanaeth yn falch bod cytundeb swyddogol bellach yn ei le rhwng y ddwy ochr.

Trafodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mynegwyd diolch gan drigolion Porthmadog am gymorth swyddogion yr Harbwr yn ystod y gaeaf. Mynegwyd y farn bod y ffigurau boddhad cwsmer yn dangos bod y gwasanaeth yn fodlon mynd yr ail filltir a gweithio fel un Cyngor, un tîm.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi bod yn cefnogi'r Gwasanaeth Oedolion ers sawl blwyddyn yn ystod tywydd garw, yn enwedig yn ardaloedd Dolgellau a Blaenau Ffestiniog. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw niwed i staff na cherbydau wedi digwydd yn ystod cyfnod y gaeaf eleni.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod ffigurau boddhad cwsmer wedi cynyddu'n sylweddol o 40% 'Rhagorol' yn 2023/24 i 68% yn 2025/26 yn ystod cyfnod heriol yn ariannol, gan ddangos cryfder y gwasanaeth. Mynegwyd balchder bod y gwasanaeth wedi cwblhau gwaith uwchraddio'r swyddfeydd, gan ddarparu lle taclus a chyfforddus i staff weithio. Mynegwyd hefyd glod am y gytundeb ffurfiol a gytunwyd gyda'r Clwb Rhwyfo.

Cwestiynwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r llong *Terra Marique*. Mewn ymateb, cadarnhawyd y bydd y llong yn ymweld â Morfa Bychan unwaith eto ym mis Gorffennaf, ac nad oedd gan y gwasanaeth unrhyw bryderon ynglŷn ag ymweliad y cwch. Nodwyd y byddai angen cau'r brif fynedfa am gyfnod, ond bod mynedfa amgen yn bodoli. Ymhelaethwyd bod ymweliad y cwch yn ffynhonnell incwm i'r gwasanaeth, ac y byddai'r gwasanaeth yn derbyn ad-daliad am unrhyw gostau cysylltiedig.

Awgrymwyd y dylid rhannu'r fideo drôn ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod bwriad i greu fideos drôn o'r ffordd i mewn i'r sianel ym mhob harbwr, a'u cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor at ddibenion mordwyo. Cwestiynwyd ymhellach pa mor aml yr oedd y banc tywod yn newid, gan awgrymu y byddai diweddarau'r fideo drôn yn chwarterol o fudd i forwyr. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y banc tywod yn symud yn rheolaidd, yn dibynnu ar nifer o ffactorau, a bod adolygu'r sianel yn arfer cyffredin. Cadarnhawyd mai bwriad y gwasanaeth yw rhannu'r wybodaeth gyda morwyr yn dilyn adnewyddu gwefan y Cyngor. Atgoffwyd bod rhybuddion i forwyr yn cael eu cyhoeddi pan fod pryderon am ddiogelwch, a bod y rhain yn cael eu rhannu ar wefan y Cyngor.

Holwyd ynglŷn â'r gollyngiad olew yn ardal Cricieth, gan ofyn am darddiad yr olew. Cwestiynwyd ymhellach a fyddai'r gwasanaeth yn gymwys ac yn barodi i ymateb i ollyngiadau olew mewn afonydd. Mewn ymateb, nodwyd bod olew o fusnes lleol wedi

gollwng i mewn i ffrwd ac yna i'r traeth. Cadarnhawyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn arwain ar ymateb i'r digwyddiad, yn enwedig mewn perthynas a'r ardal tu hwnt i'r traeth. Nodwyd bod costau sylweddol ynghlwm â'r gwaith glanhau, ond bod gan y gwasanaeth ddyletswydd, fel rhan o'r Cod Diogelwch Morol, i gadw offer gwrthlygredd priodol. Mynegwyd gobaith y byddai'r costau a gafwyd yn cael eu hadennill.

(2) Cyflwynwyd adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol, ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2025 a mis Mawrth 2026. Nodwyd yn benodol:

- Bod bwi rhif 1 wedi dod i'r lan ers cynhyrchu'r adroddiad.
- Bod gwaith dros dro i farcio'r sianel gyda bwiau melyn yn mynd yn ei flaen, a gobeithir y bydd y tywydd yn ffafriol yr wythnos nesaf er mwyn gosod y bwiau parhaol.
- Bod bwriad i gyhoeddi Rhybuddion i Forwyr ar wefan y Cyngor yn fuan, er mwyn eu dosbarthu'n haws i ddefnyddwyr yr harbwr. Ar hyn o bryd, mae anhawster technegol gan fod maint y ffeiliau yn rhy fawr i'w hanfon.
- Bod gobaith y bydd modd prynu bwiau newydd, gan fod nifer o'r rhai presennol yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd eu hoedran.
- Bod agoriad Afon Dwyrdd wedi symud, gan arwain at broblemau gyda chefnennau tywod yn ardal 'Danger Rock'.
- Bod staff yr harbwr yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r gwelliannau a'r gwaith uwchraddio a wnaed i Swyddfa'r Harbwr.
- Bod peiriant talu ac arddangos newydd wedi ei brynu, a fydd yn cael ei osod yn maes parcio'r harbwr cyn cyfnod y Pasg.
- Bod decin cyfansawdd wedi ei osod o amgylch lloc yr harbwr, a bod y coed griselinia a blannwyd yno yn sefydlu ac yn tyfu'n dda.
- Gobeithir gosod camera teledu cylch cyfyng newydd fis nesaf ar ochr adeilad yr harbwr.

Trafodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad ac am waith yr Harbwrfeistr dros y cyfnod.

Mynegwyd dymuniad i dderbyn mwy o wybodaeth ynglŷn â'r her sy'n gysylltiedig â chychod sydd wedi eu gadael, gyda'r cyfrifoldeb amdanynt wedyn yn disgyn ar yr Harbwr a'r Cyngor. Cyfeiriwyd yn benodol at y sefyllfa ym Mhorthmadog, ond nodwyd hefyd fod y mater yn berthnasol ledled Cymru. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hyn yn broblem gynyddol, gyda llawer o gychod bach yn cael eu gadael ar draethau Gwynedd. Eglurwyd mai cyfrifoldeb y Gwasanaeth Morwrol yw trefnu eu gwaredu a chwrdd â'r costau cysylltiedig.

Holwyd hefyd ynghylch y system teledu cylch cyfyng a'r ffordd y caiff y recordiadau eu storio a'u defnyddi. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y recordiadau teledu cylch cyfyng ar gael yn swyddfa'r harbwr, ond nad ydynt yn cael eu monitro'n barhaus. Yn hytrach, cânt eu hadolygu pan fo digwyddiad penodol yn codi neu pan dderbynnir cais am ddata gan yr heddlu yn dilyn trosedd. Mynegwyd y farn bod y teledu cylch cyfyng wedi bod yn hynod werthfawr ers ei osod, gan fod sawl digwyddiad wedi digwydd ym Mhorthmadog ac Abermaw. Ychwanegwyd bod y camerâu dashcam a chamêrau corff hefyd wedi bod yn asedau buddiol i'r gwasanaeth, a bod yr holl asesiadau diogelu data mewn lle i gefnogi eu defnydd.

Diolchwyd am waith staff yr harbwr yn cynnal a chadw'r diffibriliwr yn ystod y gaeaf.

Nodwyd ymhellach fod y gwasanaeth wedi tynnu mwyafrif o'r ffonau argyfwng ar draws yr arfordir, yn dilyn tystiolaeth ystadegol a ddangosai mai prin iawn oedd eu defnydd. Mynegwyd y gobaith y bydd y cam hwn yn arwain at arbedion cost ac yn lleihau gwariant diangen.

PENDERFYNWYD Nodi a derbyn yr adroddiad.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30/10/26.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yp a daeth i ben am 1:57yp.

(Cadeirydd)

Eitem 8

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Dyddiad:	30 Hydref 2026
Awdur:	Uwch Swyddog Harbwr
Gwasanaeth:	Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned
Teitl:	Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth

1 CEFNDIR

- 1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

- 2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth. Caiff y data isod ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

Cytundebau Angori

Yr Harbwr	2024/25	2025/26	2026/27
Porthmadog	109	106	112
Abermaw	78	81	86
Aberdyfi	79	83	86
CYFANSWM	266	270	284

Fel y gwelir, mae ffigyrau tymor 2026/27 yn dangos cynnydd yn nifer y rhai sy'n dal angorfeydd ym mhob harbwr yng Ngwynedd. Yn y blynnyddoedd blaenorol, mae nifer y cwsmeriaid wedi amrywio rhwng harbyrau, yn rhannol o ganlyniad i berchnogion cychod yn adleoli eu cychod yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyfartalog cyffredinol o tua 4% yn awgrymu cynnydd ehangach yn y galw am angorfeydd ar draws harbyrau Gwynedd. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o adlewyrchu cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cyfnodau hir o dywydd ffafriol, ystod ac ansawdd y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn harbyrau Gwynedd, ffioedd angori cystadleuol, a chynnydd cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal.

Gostyngodd nifer y cofrestriadau cerbydau dŵr personol (jet-skis) a chychod pŵer yn ystod tymor 2025/26 o 147, gyda 2,509 yn y tymor blaenorol i 2,362. Mae ffigwr eleni o 2,361 yn dangos bod niferoedd a gofrestrodd wedi aros yn gyson fras â'r tymor blaenorol. Dylid nodi

unwaith eto nad yw'r incwm a gynhyrchir o gofrestriadau cychod wedi'i gynnwys yng nghyllideb yr Harbwr a ragwelir isod.

2.2 Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad parhaus staff yr harbwr, sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol a chroesawgar i gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid phresennol. Mae'r staff wastad ar gael i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol gydag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â'r harbwr. Mae eu gwybodaeth, eu profiad a'u dealltwriaeth leol o amgylchedd yr harbwr yn amhrisiadwy, yn enwedig wrth ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl neu gynorthwyo cwsmeriaid a defnyddwyr yr harbwr.

Ar adegau, mae staff yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol, gan ddarparu cefnogaeth pan fo'r amgylchiadau yn gofyn am hynny, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae eu hymrwymiad parhaus a'u dull proffesiynol yn gwneud cyfraniad pwysig at weithrediad diogel ac effeithiol yr harbwr ac at brofiad cadarnhaol y rhai sy'n defnyddio ac yn ymweld â'r ardal.

Gall yr harbyrau a'r arfordir fod yn amgylchedd heriol i'r rhai sy'n eu defnyddio, ac felly gall profiad a gwybodaeth leol staff yr harbwr fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ac arweiniad i ddefnyddwyr yr harbwr a'r traethau.

2.3 Mae adborth gan gwsmeriaid, ymwelwyr a defnyddwyr harbwr yn cael ei annog yn rheolaidd drwy'r arwyddion arolwg adborth cod QR sydd wedi'u lleoli ar draws yr harbyrau a'r traethau. Croesewir adborth cadarnhaol a negyddol, gan ei fod yn darparu gwybodaeth werthfawr i'n helpu i nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o ganlyniadau cyfunol boddhad y cwsmer ar draws holl harbyrau Gwynedd:

	2024/25	2025/26	2026/27
Rhagorol	60%	68%	52%
Da iawn	24%	24%	18%
Boddhaol	16%	4%	18%
Gwael	0%	2%	12%
Gwael iawn	0%	0%	0%
Anhysbys	0%	2%	0%

Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod 70% o'r ymatebwyr wedi graddio eu profiad fel naill ai'n Ardderchog neu'n Dda iawn. Mae hyn yn cymharu â 84% a adroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth. Fodd bynnag, dylid nodi bod y canlyniadau diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill a Medi yn unig ac felly ond yn giplun o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall y ffigwr boddhad cyffredinol newid wrth i ymatebion pellach gael eu derbyn cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2027.

Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd gan gwsmeriaid ac ymwelwyr â'r harbwr:

"Glân a digonedd o seddi"

"Golygfeydd gwych a thraeth ond mae'r prisiau am fwyd yn ormodol. Os ydych chi'n teithio gyda phlant, mae angen i chi ailforgeisio'r tŷ. Roedd y llety yn braf ond hefyd yn ddrutach na Llundain"

"Mae angen gwella'r ystolion ac mae'n anodd dod oddi ar y cychod"

"Argymhellir yn gryf"

"Mwy o grancod"

"Gofynnir i chi sganio cod QR ond mae'r signal mor ddrwg, byddai'n ddefnyddiol cael WI-FI yn Abermaw. Ond mae'r staff wastad yn barod i helpu"

"Rydyn ni'n dod at y 'Ferry' a'r hen drên. Mae'r cerdyn a'r wybodaeth y tu ôl i'r adeilad ac felly braidd yn anodd dod o hyd iddo. Byddai map ar gyfer lleoliadau'n ddefnyddiol"

"Gwaith gwych o amgylch yr harbwr"

3 Diogelwch yr Harbwr

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morol porthladdoedd. Trwy gydol yr hyn sydd wedi bod yn dymor arbennig o brysur, mae staff wedi parhau i fonitro ac archwilio seilwaith yr harbwr a chynllunio gwaith cynnal a chadw a gwella i'r dyfodol. Mae llawer o'r gwaith cynnal a chadw gweithredol wedi'i raglennu ar gyfer misoedd y gaeaf, pan fydd gweithgarwch a nifer yr ymwelwyr yn y harbyrau yn gyffredinol yn is. Mae'r dull hwn o arolygu, cynnal a chadw a gwella sydd wedi'i gynllunio yn cefnogi gweithrediad a datblygiad diogel parhaus ein harbyrau a chydymffurfiaeth barhaus â'r PMSC.

Mae'r gaeaf hefyd yn rhoi cyfle i staff ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Mae cynnal sgiliau a chymwyseddau priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni'r ystod eang o ddyletswyddau sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth. O ystyried natur amrywiol eu rolau a'u cyfrifoldebau, mae cyfleoedd hyfforddi perthnasol bob amser yn cael eu hystyried. Gall y rhain amrywio o TG a thechnolegau datblygol, gan gynnwys defnyddio AI, i ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, adnabod rhywogaethau a thrin cychod. Mae'r cwrmpas eang o waith a wneir gan y Gwasanaeth Morwrol yn rhoi cyfleoedd i staff barhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gydol eu gyrfaedd.

Mae tymor 2026 wedi bod yn eithriadol o brysur i'r Gwasanaeth Morwrol, gyda gweithgarwch sylweddol ar hyd yr arfordir. Yn ystod y tymor, mae staff Harbwr Porthmadog wedi ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys cychod wedi

suddo, methiannau injan a phobl sy'n profi anawsterau ar y dŵr, yn ogystal â chynorthwyo Gwylwyr y Glannau EF pan ofynnir iddynt.

Bydd digwyddiadau sy'n ymwneud â chychod yn sicr o godi o bryd i'w gilydd, a hoffai'r Awdurdod Harbwr fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa perchnogion cychod am bwysigrwydd sicrhau bod eu cychod a'u cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael eu cynnal yn briodol ac yn addas ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Ar rai achlysuron, mae llongau wedi profi trafferthion mecanyddol lle gallai cynnal a chadw neu wiriadau priodol a threialon ar y môr cyn teithio fod wedi helpu i nodi problemau posibl.

Er bod yr Awdurdod Harbwr yn parhau i flaenoriaethu diogelwch o fewn terfynau'r harbwr ac yn darparu cyngor a chymorth i forwyr lle bo hynny'n briodol, mae'r cyfrifoldeb am gyflwr, cynnal a chadw ac addasrwydd cychod unigol a'u hoffer diogelwch cysylltiedig yn parhau gyda pherchennog y cwch.

Gall damweiniau a digwyddiadau ddigwydd dan amrywiaeth o ran amodau'r tywydd a chyflwr y môr. 'Rydym yn dymuno teithiau arfordirol diogel a phleserus i bob defnyddiwr harbwr gan annog perchnogion cychod i archwilio a chynnal a chadw eu cychod a'u hoffer diogelwch cysylltiedig yn rheolaidd.

Fel rhan o'r Cod Diogelwch Morol Porthladd (PMSC), cedwir cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau difrifol. Mae'r cofnodion hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer dysgu a hyfforddi staff a gallant hefyd gefnogi gofynion adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r MCA, Gwylwyr y Glannau EF, y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol (MAIB), Trinity House a Swyddfa Hydrograffig y DU (UKHO), yn ogystal ag adrodd am lygredd (POLREP), lle bo hynny'n briodol.

Mae'n gadarnhaol adrodd nad oedd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y cyfnod yn gofyn am gynnwys y MAIB ac nad oedd unrhyw lygredd sylweddol wedi'i adrodd o ganlyniad i ddamwain cwch. Serch hynny, cesglir gwybodaeth berthnasol yn dilyn digwyddiadau a'i rannu gyda'r MCA fel y bo'n briodol. Mae diweddariadau yn parhau i gael eu darparu wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael a hyd nes bod y digwyddiad wedi'i ddatrys yn foddhaol.

Fel yr adroddwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, mae Trinity House, fel yr Awdurdod Goleudy Cyffredinol, yn archwilio ac yn arolygu ein cofnodion a'n systemau sy'n ymwneud â chynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo yn ein harbyrau ac ar hyd yr arfordir yn rheolaidd. Fel Awdurdod Harbwr Statudol (SHA), mae'r Cyngor hefyd yn cyflawni rôl Awdurdod Goleudy Lleol (LLA) o fewn ei feysydd cyfrifoldeb perthnasol. Felly, mae'r Gwasanaeth yn cynnal ac yn monitro ei Gymhorthion Mordwyo i gefnogi taith ddiogel morwyr sy'n defnyddio ein harbyrau.

Cynhaliwyd arolygiad diweddaraf Trinity House yn nechrau mis Hydref. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid oedd y canfyddiadau ffurfiol wedi'u derbyn. Yn ystod yr ymweliad, trafodwyd symudiad bwi mewn ymateb i newidiadau yn safle'r banciau tywod trwy gydol y flwyddyn. Roedd cofnodion priodol wedi'u cadw a Hysbysiadau i Forwyr wedi'u cyhoeddi a'u diweddarau yn unol â hynny. Ar adeg yr ymweliad, nid oedd

unrhyw faterion pendant yn ymwneud â Chymhorthion Mordwyo yn ardal Porthmadog.

Rydym yn parhau i groesawu gwybodaeth ac adborth gan forwyr, defnyddwyr harbwr, ymwelwyr ac awdurdodau perthnasol ynghylch unrhyw berygl mordwyo, newid yn amodau'r sianel neu symudiad bwi a allai fod angen ei ymchwilio neu ei gymryd camau gweithredu.

4 Adnoddau a Chyllideb

Mae crynodeb a ragwelir o'r gyllideb ar gyfer harbwr Porthmadog isod.

PORTHMADOG HARBOUR	Financial Performance for the Period 1 April 2026 to 31 March 2027 - August 2026 Review		
	BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/26 TO 31/3/27	INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/26 TO 31/3/27	OVER (UNDER)
Employees	81,060	84,348	3,288
Buildings	24,800	6,491	(18,309)
Transport	690	0	(690)
Supplies & Services	14,170	24,817	10,647
One - Off Expenditure - Financed from Reserves	0	0	0
Total Expenditure	120,720	115,656	(5,064)
Income	(79,780)	(90,564)	(10,784)
Contribution from Reserves Tow	0	0	0
Total Net	40,940	25,091	(15,849)

5 Materion Allweddol Eraill

Yn ystod cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, gellir adrodd hefyd:

- 5.1 Bod ymweliadau rheolaidd gan y Llu Ffiniau â Swyddfeydd yr Harbwr drwy gydol y flwyddyn yn helpu i gynnal cyfathrebu effeithiol rhwng staff yr harbwr a'r awdurdod, gan alluogi rhannu gwybodaeth a datblygiadau perthnasol ar hyd yr arfordir, lle bo hynny'n briodol. Yn fwy diweddar, gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Llu Ffiniau i fynychu cyfarfod y Gwasanaeth Morwrol i roi cyflwyniad i staff ar faterion i fod yn ymwybodol ohonynt ac amgylchiadau lle dylid adrodd gwybodaeth i'r Llu Ffiniau. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynnwys 'Project Kraken', menter ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n ymwneud ag adrodd am weithgareddau amheus o amgylch arfordir y DU. Mae

gwybodaeth Project Kraken yn cael ei arddangos yn ein harbwr, ac mae'r cyflwyniad yn rhoi rhagor o wybodaeth i staff i gefnogi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r fenter.

- 5.2 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid drwy Gronfa Pysgodfeydd Cymru a'r Gronfa Twf Lleol. Ar adeg ysgrifennu, roedd disgwyl am ganlyniad y ddau gais. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cyllid yn cefnogi datblygiad parhaus ein harbwr, gan gynnwys gwelliannau i gyfleusterau i gwsmeriaid ac ymwelwyr.
- 5.3 Mae'r system teledu cylch cyfyng newydd a osodwyd eisoes yn yr Harbwr wedi bod yn fuddiol, gan ddarparu gwell goruchwyliaeth i staff o ardal yr harbwr a chyfrannu at well diogelwch a diogeledd. Derbynnir ceisiadau am ffilm teledu cylch cyfyng yn rheolaidd gan Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynorthwyo gyda cheisiadau o'r fath lle bo hynny'n briodol.
- 5.4 Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r defnydd o MV Dwyfor, cwch gwaith y Gwasanaeth Morwrol. Oherwydd gofynion cynnal a chadw a chodio parhaus, gofynnodd y Gwasanaeth i'r YDSA atal ardystiad y cwch tra bod y materion hyn yn cael eu hystyried.

6 ARGYMHELLION

- 6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Dyddiad:	30 Hydref 2026

Awdur:	Yr Harbwrfeistr - Malcolm Humphreys
Gwasanaeth:	Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned
Teitl:	Diweddariad ar Faterion Gweithredol

1. CEFNDIR

- 1.2 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog
- 1.3 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL

Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y Gwasanaeth.

2.1 Materion Mordwyo

Yn dilyn newidiadau i'r banciau tywod o fewn y sianel fordwyol dros fisoedd y gaeaf, ail-leolodd staff yr harbwr nifer o Gymhorthion Mordwyo i baratoi ar gyfer dechrau'r tymor. Cyflwynwyd a chyhoeddwyd hysbysiadau i Forwyr ar wefan y Cyngor, gan ddarparu manylion am beryglon mordwyo perthnasol a chyfesurynnau lledred a hydred wedi'u diweddarau lle bo hynny'n briodol.

O ganlyniad i amodau newidiol y sianel, mae sawl cymorth mordwyo bellach mewn safleoedd diwygiedig ac mae nifer o fwiau dros dro wedi'u tynnu. Mae staff yr harbwr hefyd yn cynhyrchu siartiau lleol sy'n dangos safleoedd diweddaraf y bwiau, sydd ar gael gan Swyddfa'r Harbwr.

Yn ystod y tymor, suddodd cwch tra roedd ar ei angorfa yn sianel yr harbwr yn dilyn cyfnod o law trwm. Defnyddiwyd bwiau ychwanegol i farcio'r perygl, a chyflwynwyd Hysbysiad i Forwyr i roi gwybod i ddefnyddwyr yr harbwr. Gan weithio mewn cydweithrediad â pherchennog y cwch a chontractwyr lleol, codwyd y cwch wedyn a'i adleoli i wal yr harbwr, lle gellir ei fonitro tra bod trefniadau ar gyfer ei ddyfodol yn cael eu hystyried. Ar ôl cael gwared ar y perygl hwn, nid oes unrhyw Hysbysiadau i Forwyr mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer Harbwr Porthmadog.

2.2 Materion penodol sydd wedi codi

- Fel y tynnwyd sylw ato gan yr Uwch Swyddog Harbwr, mae arolygiad y tu allan i'r dŵr o gwch gwaith y Gwasanaeth Morwrol, MV Dwyfor, wedi nodi nifer o faterion cynnal a chadw a chodio sy'n gofyn am sylw. Mae trafodaethau felly yn parhau ynglŷn â dyfodol y cwch. Yn ei gyflwr presennol,

nid yw MV Dwyfor yn cwrdd â'r gofynion sydd eu hangen i ymgymryd â'r ystod lawn o weithrediadau a ddisgwylir o gwch gwaith y Gwasanaeth.

- Gan fod Dwyfor ar hyn o bryd ddim ar waith, mae'r Gwasanaeth yn dibynnu ar contractwyr lleol i gynorthwyo gyda chodi, ail-leoli a lleoli bwiau pan fo angen. Yn ffodus, mae'r sianel fordwyol wedi aros yn gymharol sefydlog ers y gaeaf, er bod staff yr harbwr yn parhau i fonitro'r amodau'n rheolaidd. Mae'n bosibl bod y glawiad cyfyngedig a'r llif llai o afonydd Glaslyn a Dwyrdd wedi cyfrannu at sefydlogrwydd cymharol y sianel o amgylch Borth-y-Gest a Garreg Goch yn ystod y cyfnod hwn.
- Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r holl forwyr o bwysigrwydd gwirio'r Hysbysiadau cyfredol i Forwyr yn rheolaidd a bod yn ofalus wrth lywio, yn enwedig mewn ardaloedd lle gall amodau'r sianel neu beryglon mordwyo newid.
- Yn ystod y tymor, croesawyd ddychweliad cwch y 'Terra Marique' i draeth Morfa Bychan i gyflenwi is-adweithydd ar gyfer gorsaf bŵer Trawsfynydd. Digwyddodd y gwaith yn ystod penwythnos ym mis Gorffennaf, a ddewiswyd gan y contractwr trafniadaeth ar ran National Grid, pan oedd amodau'r llanw a'r tywydd yn ffafriol. Cwblhawyd y gwaith yn llwyddiannus, gyda'r Gwasanaeth Morwrol yn darparu staff ychwanegol trwy gydol y cyfnod i helpu i reoli'r ardal a chefnogi diogelwch ymwelwyr ar ac oddi ar y dŵr.
- Mae gwaith cynllunio a chydlynio sylweddol yn digwydd cyn y gweithrediadau hyn i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mor ddiogel ac mor llyfn â phosibl. Er bod rhywfaint o aflonyddwch yn anochel yn ystod y cyfnod dosbarthu, gwneir pob ymdrech i leihau'r effaith ar drigolion lleol, ymwelwyr a defnyddwyr eraill yr ardal.
- Fel rhan o'r datblygiad parhaus o loc yr harbwr, mae cytundeb wedi'i roi ar waith i alluogi'r Clwb Rhwyfo i barhau i ddefnyddio man storio dynodedig ar gyfer y Cychod Hir Celtaidd. Mae'r trefniant hwn yn darparu man diogel ac addas i'r Clwb ar gyfer storio ei gychod a'i offer cysylltiedig.
- Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae camera teledu cylch cyfyng newydd wedi'i osod ar dalcen Swyddfa'r Harbwr. Mae'r camera eisoes wedi profi i fod yn ychwanegiad gwerthfawr i'r system bresennol, gan ddarparu gwell golwg o wal yr harbwr, y bont a'r sianel. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod adfer y cwch a suddodd yn ddiweddar, gan alluogi staff yr harbwr i fonitro'r ardal tra bod contractwyr yn cynnal y gwaith codi a darparu cymorth ychwanegol ar gyfer rheoli'r gwaith yn ddiogel.



- Mae arolygiadau diweddar o amgylch yr harbwr wedi nodi nifer o feinciau ger y Ganolfan oedd angen eu symud oherwydd eu cyflwr. Yn amodol ar argaeledd cyllid grant, y gobaith yw y gellir newid y rhain a darparu meinciau a byrddau picnic ychwanegol ar y lawnt ger y llithrfa, gan wella'r cyfleusterau sydd ar gael i ymwelwyr a defnyddwyr yr harbwr.
- Yn ddiweddar, gwnaed gwelliannau i'r maes parcio y tu ôl i Swyddfa'r Harbwr. Mae arwyddion newydd wedi'u gosod sy'n cynghori nad yw'r ardal yn addas ar gyfer cerbydau mawr, ynghyd â pheiriant Talu ac Arddangos newydd sy'n cynnig cyfleusterau talu cardiau. Mae'r peiriant newydd yn ychwanegiad sydd i'w groesawu, gan ddarparu opsiwn talu mwy cyfleus i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt efallai yn cario arian parod bob amser.



- Mae Swyddfa'r Harbwr yn ystyried cyflwyno bin aildddefnyddio offer dal crancod ac offer pysgota pwrpasol yn yr harbwr. Y nod fyddai darparu lleoliad dynodedig lle gall ymwelwyr adael rhwydi cranc diangen a chyfarpar addas arall i'w defnyddio gan deuluoedd eraill, gan helpu i leihau faint o offer sydd ar ôl o amgylch yr harbwr. Mae dal crancod o wal yr harbwr yn weithgaredd poblogaidd y mae llawer o deuluoedd ac ymwelwyr yn ei fwynhau. Yn anffodus, mae offer yn cael ei adael ar ôl yn rheolaidd, gan gynnwys rhwydi a llinellau wedi'u clymu i reiliau neu'n cael eu clymu o amgylch cychod. Gall llinellau ac offer pysgota sydd wedi'u taflu beri perygl i gychod, defnyddwyr harbwr a bywyd gwylt, yn enwedig lle mae bachau yn parhau i fod arnynt. Byddai'r cyfleuster arfaethedig felly yn annog aildddefnyddio neu waredu offer yn gyfrifol, tra'n helpu i leihau'r peryglon hyn a chadw ardal yr harbwr yn dachus ac yn ddiogel i bawb.

- Mae staff yn parhau i wneud gwelliannau i ymddangosiad ardal yr harbwr, gan gynnwys adnewyddu ac ail-baentio'r bwi sy'n cael ei arddangos ger yr Amgueddfa Forwrol, y bont ac ardal yr harbwr cefn. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu i gynnal amgylchedd croesawgar sydd wedi'i gyflwyno'n dda i ddefnyddwyr yr harbwr ac ymwelwyr.




Digwyddiadau

- Roedd y Gwasanaeth unwaith eto yn falch o groesawu 'Clwb Hen Feiciau Modur Eryri' i'r Harbwr ar 6 Medi. Mae digwyddiadau fel hyn yn rhoi cyfle i fwynhau ardal yr harbwr gan y gymuned ehangach ac ymwelwyr, tra'n ychwanegu diddordeb a gweithgarwch i'r harbwr. Rydym bob amser yn falch o weld yr harbwr yn cael ei ddefnyddio a'i fwynhau yn y modd hwn.
- Hoffai'r gwasanaeth atgoffa holl drefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod i ni'n gynnar am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig.
- Wrth ystyried a ddylid cymeradwyo digwyddiad, bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth a ddarperir sy'n manylu'r amgylchiadau. Ceidw y gwasanaeth yr hawl i gymhwyso unrhyw gyfyngiadau, gosodiadau neu gyfyngiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

3. ARGYMHELLION:


3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.



TOTAL NO. OF CUSTOMERS (ANNUAL MOORINGS) ON MOORINGS IN GWYNEDD HARBOURS


No. of customers in Aberdyfi No. of customers in Barmouth

No. of customers in Porthmadog



Harbours' Customer Satisfaction

Very good Good Satisfactory Poor Very Poor No response
(months as in the 3rd graph)



Percentage of Aids to Navigation within the harbour area and on the coast of Cyngor Gwynedd which were available on station and in accordance with the annual Trinity House inspection.

Ambition 2026/27 Actual 2026/27 January February March April May June July

August September October November December 2026

January February March 2027